# Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg drafft 2022-2032

## Dogfen ymgynghori

**Dyddiad cyhoeddi**: **27 Medi 2021**

**Camu i'r cymryd:** Ymatebion erbyn **19 Rhagfyr 2021**

**Ffôn**: (01656) 643 664

**E-bost**: consultation@bridgend.gov.uk

**Gwefan:** www.bridgend.gov.uk/consultation

# Ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA)

## Trosolwg

Diben yr ymgynghoriad hwn yw cael sylwadau ar CSCA 2022-32 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Y nod yw cael sylwadau gan breswylwyr, ein gweithlu, aelodau etholedig a rhanddeiliaid ar y CSCA arfaethedig ar gyfer 2022-2032.

Caiff canlyniadau'r ymgynghoriad hwn eu defnyddio i baratoi'r CSCA terfynol a fydd yn cael ei roi ar waith ym mis Medi 2022.

Mae adran 84 o *Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013* ("Deddf 2013") yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ("y Cynllun") ac mae'n amlinellu y dylai Cynllun gynnwys y canlynol:

- Cynigion yr awdurdod lleol ynghylch sut y bydd yn ymgymryd â'i swyddogaethau addysgol i:
- Wella'r gwaith o gynllunio addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ("addysg Gymraeg") yn ei ardal.
- Gwella safonau addysg Gymraeg ac addysgu Cymraeg yn ei ardal.
- Targedau'r awdurdod lleol i wella'r cynlluniau ar gyfer addysg Gymraeg yn yr ardal ac i wella safonau'r addysg honno ac addysgu Cymraeg yn ei ardal.
- Cyflwyno adroddiad ar y cynnydd a wneir o ran cyrraedd y targedau yn y Cynllun blaenorol neu'r Cynllun diwygiedig blaenorol.

Mae adran 84 hefyd yn nodi'r rhai y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â nhw wrth baratoi neu ailystyried ei Gynllun ac mae'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru enwi pobl eraill y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â nhw.

Mae adran 85 o Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gyflwyno'i Gynllun i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.

## Sut i ymateb

Bydd y cyfnod ymgynghori hwn yn dechrau ar **27 Medi 2021** a daw i ben ar **19 Rhagfyr 2021**. Gallwch ymateb neu ofyn rhagor o gwestiynau drwy ddefnyddio'r manylion cysylltu isod:

**Ffôn:** (01656) 643 643
**E-bost:** WLS@bridgend.gov.uk
**Ar-lein:** Cliciwch yma i fynd i dudalen ymgynghoriad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Post:** Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu, awdurdod lleol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB. Mae'r ymgynghoriad ar gael ar fformatau eraill ar gais.

## Diogelu data

Caiff y wybodaeth a gawn gennych ar y ffurflen hon ei defnyddio wrth baratoi CSCA 2022-2032.

Bydd y Cyngor yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau cyfrinachedd ac i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Mae'n bosibl y caiff ei gwybodaeth ei rhannu â meysydd gwasanaeth perthnasol wrth ddatblygu polisïau yn y dyfodol. Caiff eich gwybodaeth ei chadw'n unol â Pholisi Cadw Data'r Cyngor.

Mae gennych nifer o hawliau o dan ddeddfwriaeth diogelu data. Gallwch hefyd dynnu'ch caniatâd yn ôl neu ofyn i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol unrhyw adeg drwy gysylltu â ni. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael ar ein gwefan neu gallwch gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data.

Os nad ydych yn fodlon â'r modd y byddwn yn prosesu'ch data personol yna cewch gyflwyno cwyn gerbron y Swyddog Diogelu Data a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## Dogfennau perthnasol

- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Safonau'r Gymraeg
- Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg
- Cynllun corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018 -2022
- Diwygiadau addysg (fel y Cwricwlwm ac asesu, atebolrwydd, datblygu'r gweithlu a'r dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol)
- Gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Ysgolion yr 21ain ganrif a'r Rhaglen Addysg
- Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd
- Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant
- Cytundebau Adran 106, a wnaed o *dan Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.*
- Gwasanaethau plant a phobl ifanc
- Cod derbyn i ysgolion
- Cod trefniadaeth ysgolion
- Addysg ôl 16
- Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008
- Strategaethau Hyrwyddo 5 mlynedd awdurdodau lleol, a wnaed o dan safonau 145 a 146 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (rhif 1) 2015
- Cynlluniau Datblygu Lleol

## Diben y CSCA

Mae gweledigaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol yn gydnaws â'r ddogfen, Cymraeg 2050 - Miliwn o siaradwyr Cymraeg (Llywodraeth Cymru, 2017). *Fel awdurdod lleol, rydym yn dymuno i'r Gymraeg ffynnu, ac iddi gael ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Ymhlith y rheini nad ydynt yn ei siarad mae yna ewyllys da tuag ati ac ymdeimlad o berchnogaeth ohoni. Mae yna werthfawrogiad hefyd o'i chyfraniad i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru*.

*Ein gweledigaeth yw sicrhau amgylchiadau ffafriol drwy'r awdurdod lleol gyfan yw creu amodau ffafriol sy'n hybu'r broses o gaffael yr iaith a'r arfer o ddefnyddio sgiliau Cymraeg. Rydym am weld cynnydd yn yr arfer o drosglwyddo'r iaith o fewn y teulu ac o gyflwyno'r Gymraeg yn gynnar i bob plentyn, system addysg sy'n rhoi sgiliau Cymraeg i bawb, a mwy o werthfawrogiad o sgiliau iaith yn y gweithle. Ar yr un pryd, rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, yn y gweithle, ac wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus.*

Bydd y CSCA yn sicrhau bod gweledigaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Yn cael ei gwireddu. Mae'r CSCA yn cynnig fframwaith ar gyfer rhoi'r weledigaeth ar waith.

## Y wybodaeth berthnasol y byddwn yn ei defnyddio

Yn ogystal â gwrando ar breswylwyr, ein cymunedau a'n staff, byddwn hefyd yn defnyddio gwybodaeth amrywiol i'n helpu ni i bennu amcanion.

Byddwn yn ystyried blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, blaenoriaethau'r cyngor a chynlluniau ar gyfer gwasanaethau ac yn adolygu'r cynnydd a wnaed eisoes yng ngwasanaethau'r cyngor mewn perthynas â'r CSCA blaenorol.

## Sut y datblygwyd ein CSCA

Er mwyn datblygu ein CSCA, rydym wedi:

- Adolygu ein Cynllun CSCA a'r cynllun gweithredu.
- Cynnal diwrnod cynllunio CSCA gyda Fforwm CSCA sy'n cynnwys nifer o randdeiliaid allweddol;
- Ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru.
- Defnyddio amcanion corfforaethol y cyngor, sef hybu economi lwyddiannus; helpu pobl i fod yn fwy hunanddibynnol a defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol i helpu i greu strwythur a dulliau o adolygu'n hamcanion
- Ystyried materion cenedlaethol a lleol.
- Defnyddio'r adborth a gawn yn rheolaidd gan breswylwyr, grwpiau, partneriaid a rhanddeiliaid eraill.
- Nodi'r partneriaid allweddol a fydd yn ein helpu i gyflawni'n hamcanion.

- Adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer addysg Gymraeg drwy Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Adolygu'r polisïau perthnasol gan gynnwys: Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Mwy na Geiriau (Llywodraeth Cymru), Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a chynllun corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018 -2022

## Ein CSCA ni

I ddatblygu amcanion y Gymraeg byddwn yn ymgysylltu â phreswylwyr, aelodau etholedig a rhanddeiliaid ac yn defnyddio'r wybodaeth a'r polisïau perthnasol. Mae manylion amcanion drafft ein CSCA isod:

**Amcan un:** Nifer gynyddol o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

**Amcan dau:** Nifer gynyddol o blant oedran derbyn/pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

**Amcan tri**: Nifer gynyddol o blant yn parhau i wella'u sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cam o'u haddysg statudol i'r llall

**Amcan pedwar:** Nifer gynyddol o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymhwyster a gaiff ei asesu yn y Gymraeg (y pwnc) a phynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg

**Amcan pump:** Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

**Amcan chwech:** Cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer addysg Gymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**Amcan saith**: Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu dysgu Cymraeg (y pwnc) ac yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

## Y broses

Diben y ddogfen ymgynghori hon yw amlinellu'r prif amcanion a fydd yn caniatáu i ni baratoi cynllun gweithredu i hybu'n hamcanion. Paratowyd y ddogfen hon i roi gwybodaeth am y CSCA er mwyn rhoi cyfle i breswylwyr, ein gweithlu, rhanddeiliaid ac aelodau etholedig ddweud eu dweud.

Wedi i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, bydd yr holl sylwadau'n cael eu cyflwyno i Gabinet yr awdurdod lleol a chaiff pob barn ei hystyried wrth baratoi CSCA 2022-2032

Dyma amserlen yr ymgynghoriad:

- Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 27 Medi 2021.

- Daw'r ymgynghoriad i ben ar 19 Rhagfyr 2021
- Caiff y CSCA ei gyhoeddi ar 31 Ionawr 2022

## Ymgynghori â phwy?

Nod yr ymgynghoriad hwn yw cael sylwadau gan y rhai sy'n byw yn y fwrdeistref sirol, staff, aelodau etholedig a rhanddeiliaid ar y CSCA arfaethedig ar gyfer 2022-2032.